



## Polisi AAA ac ADY

### Polisi Anghenion Addysgol Ychwanegol (AAA) / Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 yn rhoi cyfrifoldebau pwysig ar Gorff Llywodraethol pob ysgol i:

*“wneud darpariaeth addysgol arbennig ar gyfer ei holl ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol ychwanegol, nail ai gyda neu heb ddatganiad”.*

Byddwn yn dilyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru a thîm ADY yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â gweithredu'r system ADY newydd ar gyfer y carfannau rhagnodedig o ddysgwyr fan ddilyn yr amserlen isod.

### Amserlen Gweithredu ADY diwygiedig

Blwyddyn Academaidd	SA/SAP/SAPRA											Datganiad o AAA															
	Meith BI 1	Meith BI 2	Derbyn	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6	BI 7	BI 8	BI 9	BI 10	Meithrin	Derbyn	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6	BI 7	BI 8	BI 9	BI 10	BI 11	
2021 - 2022																											
	Ddim yn berthnasol																										
2022 - 2023	Meith BI 1	Meith BI 2	Derbyn	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6	BI 7	BI 8	BI 9	BI 10	BI 11	Meithrin	Derbyn	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6	BI 7	BI 8	BI 9	BI 10	BI 11
2023 - 2025	Meithrin	Derbyn	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6	BI 7	BI 8	BI 9	BI 10	BI 11	Derbyn	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6	BI 7	BI 8	BI 9	BI 10	BI 11		

**D.S.** Bydd angen i bob dysgwr â CDU gael cyfarfod adolygu CDU o leiaf unwaith y flwyddyn yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal â'r rhai sy'n trosglwyddo i'r system ADY am y tro cyntaf.

ALLWEDD	<div style="display: inline-block; width: 15px; height: 15px; background-color: #4CAF50; border: 1px solid black; margin-right: 5px;"></div>	Trosglwyddo'r system CDU ac ADY yn ystod y flwyddyn academaidd
	<div style="display: inline-block; width: 15px; height: 15px; background-color: #F44336; border: 1px solid black; margin-right: 5px;"></div>	Peidiwch â throsglwyddo (oni bai bod anghenion yn cael eu nodi am y tro cyntaf neu fod rhieni yn gofyn am drosglwyddo cynnar)
	<div style="display: inline-block; width: 15px; height: 15px; background-color: #FFC107; border: 1px solid black; margin-right: 5px;"></div>	Cyfnod trosglwyddo wedi'i ymestyn dros ail flwyddyn. Lle mae CDUau eisoes yn eu lle, bydd angen adolygiad CDU
	<div style="display: inline-block; width: 15px; height: 15px; background-color: #00897B; border: 1px solid black; margin-right: 5px;"></div>	Wedi trosglwyddo eisoes a bydd angen adolygiadau CDU
	<div style="display: inline-block; width: 15px; height: 15px; background-color: #FFFFFF; border: 1px solid black; margin-right: 5px;"></div>	Ddim yn berthnasol

### Egwyddorion:

- sicrhau, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gyfle cyfartal drwy'r cwricwlwm ac yn gymdeithasol i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol.
- cydweithredu'n effeithiol gyda'r holl asiantaethau statudol ac eraill sy'n berthnasol i'r person ifanc a'i (h)anawsterau a'i (h)anghenion ef/hi



- gweithio'n agos gyda rhieni a gwarcheidwaid mewn ymdrech i sicrhau partneriaeth effeithiol a fydd yn dod a budd i'r person ifanc
- rhoi pwyslais ar gyfraniad y disgybl ac yn rhoi parch i'w barn
- sicrhau bod cwricwlwm wedi'i wahaniaethu yn hygyrch i fodloni anghenion y disgybl
- anelu at gyflawni ymateb ysgol gyfan wrth ymdrin ag anghenion y disgybl yn hytrach na chyfyngu'r cyfrifoldeb i aelodau arbennig o'r staff.

## Amcanion:

- sicrhau bod systemau ysgol gyfan yn bodoli a fydd yn nodi'n gynnar y plentyn sy'n cael anawsterau gyda'i ddysgu
- casglu gwybodaeth oddi wrth bawb dan sylw a'r disgyblion eu hunain, i sicrhau bod natur eu hanhawster yn cael ei ddeall crystal â phosibl
- sicrhau y gwneir y ddarpariaeth fwyaf effeithiol posibl ar gyfer unrhyw berson ifanc gydag anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol.
- sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth rhieni, gwarcheidwaid a phawb arall yn yr amcanion hyn.

## Darpariaeth:

- Mae ein hysgol ni yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i bob plentyn.
- Gallai plant fod ag anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol unrhyw bryd, neu trwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol, a bydd yr anghenion hyn yn amrywio o anawsterau addysgol cymedrol, emosiynol, ymddygiadol i anabledau corfforol difrifol.
- Yn unol â'r Ddeddf Addysg byddwn yn anelu at ddarparu ar gyfer y disgyblion hyn mewn lleoliad prif ffrwd.
- Wrth gynllunio, bydd y staff i gyd yn gosod heriau dysgu addas ac yn ymateb i amrywiaeth yr anghenion, er mwyn sicrhau cynnydd y disgyblion i gyd yn ôl eu gallu.
- Llunnir Cynllun Addysgol Unigol (CAU) neu Cynllun Datblygu Unigol (CDU) gan yr Athro Dosbarth a CADY, ar gyfer yr holl ddisgyblion a enwir ar y gofrestr AAA/ADY.
- Defnyddir dulliau a strategaethau addysgu amrywiol i gyflawni'r targedau a osodwyd. Cefnogir y rhain gan adnoddau ychwanegol sy'n briodol ar gyfer oed/gallu er mwyn gwella'r modd y cyflwynir y cwricwlwm.
- Cofnodir datblygiad y disgybl mewn dull systematig ac fe'i trafodir gyda'r disgybl, lle bo hynny'n briodol, a rhoddir gwybodaeth am hyn i rieni.
- Lle teimla'r ysgol fod angen cymorth ychwanegol, gofynnir am gyngor gan yr holl wasanaethau priodol.
- Yn yr ysgol hon byddwn yn ymdrechu i gymryd yr amrywiaeth eang o anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol i ystyriaeth ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i gyrraedd ei botensial.

## Asesu Anghenion:

Mae adnabod yr anghenion yn gynnar yn hanfodol.

- Yn unol â'r Ymateb Graddoledig bydd yr athro dosbarth yn hysbysu'r rhieni cyn gynted â phosibl er mwyn tynnu eu sylw at bryderon a gofyn am eu cymorth a'u cyfranogiad.

- Mae'r drefn atgyfeirio yn wybyddus i bob athro. Cyfrifoldeb yr athrawon yw dilyn y drefn mewn cydweithrediad gyda'r Cydgysylltydd AAA/ADY am anghenion y plentyn yn ei (g) ofal ef/hi.
- Mae'r atgyfeiriad yn ymwneud ag anghenion penodol y plentyn ac yn cynnwys tystiolaeth.
- Bydd yr holl dystiolaeth berthnasol yn gyfoes ac yn dangos sut y cymhwyswyd yr Ymateb Graddoledig o fewn yr ystafell dosbarth.
- Bydd y Cydgysylltydd AAA/ADY yn cadw cofnod ysgrifenedig o'r atgyfeiriad.
- Bydd yr athro dosbarth a'r Cydgysylltydd AAA/ADY yn asesu ac yn monitro cynnydd y plentyn yn unol ag arferion yr Ysgol a'r All.
- Defnyddir profion wedi'u safoni fel proses sgrinio a rhoddir disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol ar Gofrestr AAA/ADY yr ysgol.
- Hysbysir rhieni a gwarcheidwad am yr holl benderfyniadau a wnaed ynghylch eu plentyn.
- Bydd asesiad y disgyblion yn adlewyrchu i ba raddau y maent yn cyfranogi yng nghwricwlwm yr ysgol gyfan i'r graddau y mae hynny'n bosibl.
- Bydd yr athro dosbarth a'r Cydgysylltydd AAA/ADY yn ymrannu'r asesiad yn gamau llai er mwyn hwyluso cynnydd a rhoi dangosyddion mwy manwl a chywir.
- Lle gosodir targedau CAMPUS gwerthfawrogi a chynhwysir barn a syniadau'r disgyblion.
- Yn unol â'r Cod Ymarfer a Strategaeth Anghenion Arbennig yr ALI bydd yr ysgol yn ymateb i anghenion y disgyblion ar y lefel briodol.

## Rôl y Cydgysylltydd AAA/ADY:

Y Cydgysylltydd AAA/ADY yn yr ysgol hon yw Natalie Davies

Y Llywodraethwr Dynodedig gyda chyfrifoldeb am AAA/ADY yw Trish Huws

## Yn yr ysgol hon cyfrifoldebau'r Cydgysylltydd AAA/ADY yw:

- rheoli'r gwaith o weithredu'r polisi hwn o ddydd i ddydd
- cynnal cofrestr AAA/ADY yr ysgol
- cydgysylltu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol
- cefnogi, cynghori a hyfforddi cydweithwyr ynghylch cyflwyno cwricwlwm addas a sicrhau bod anghenion hyfforddi staff yn cael eu cynnwys yng nghynllun datblygu'r ysgol
- cysylltu a chydlynu gyda staff yn y gwaith o lunio eu CAU / CDU
- cyfrannu'n rheolaidd at gofnodion pob disgybl sydd ag AAA/ADY, a'u monitro
- gweithredu fel dolen gydag asiantaethau allanol ac adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd
- rheoli ystod o adnoddau, dynol a materol, sy'n gysylltiedig â disgyblion gydag AAA/ADY
- cynnal ystod o ddeunyddiau addysgu priodol ac effeithiol
- llunio'r ddogfennaeth berthnasol sy'n ofynnol gan yr ALI ac asiantaethau eraill
- cysylltu gyda'r llywodraethwr dynodedig

- rhoi adroddiadau rheolaidd i Bennaeth a Thîm Rheoli'r Ysgol am ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ALI
- cadw mewn cysylltiad â datblygiadau a syniadau o fewn maes anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol

## Rôl y Corff Llywodraethol a'r Llywodraethwr Dynodedig:

- sicrhau y gwneir y ddarpariaeth orau ar gyfer disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol
- sicrhau bod holl staff yr ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd nodi a darparu ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol
- ymgynghori gydag ALI a llywodraethwyr ysgolion eraill, pan fo hynny'n ymddangos fel pe bai'n angenrheidiol, er mwyn cydlynu'r ddarpariaeth AAA/ADY yn yr ardal yn gyffredinol
- sicrhau bod disgybl gydag AAA/ADY yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol, ynghyd â'r holl ddisgyblion eraill, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol ac yn gydnaws ag anghenion y plentyn, a bod hyn o fudd i bawb dan sylw yn unol â Chod Ymarfer Y Comisiwn Hawliau Anabled
- bod ar gael i wrando ar a chefnogi rhieni a gwarcheidwaid mewn amgylchiadau anodd
- monitro'r defnydd priodol a mwyaf effeithlon o gyllid AAA/ADY

Mae'n hanfodol fod y Cydgysylltydd AAA/ADY yn gwbl ymwybodol o'r adnoddau a ddyrannir i blant a phobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol a bod y modd y mae adnoddau yn cael eu dosbarthu yn gyffredinol ac yn dryloyw:

## Partneriaeth gydag Rheini a Gwarcheidwaid:

Mae'r ysgol hon yn cydnabod y dylanwad holl bwysig y mae rhieni a gwarcheidwaid yn ei gael ar ddatblygiad addysgol eu plant. Er mwyn meithrin partneriaeth effeithiol, bydd ein hysgol yn annog cydweithrediad y rhieni drwy wneud y canlynol:

- rhoi sylw proffesiynol i farn a phryderon rhieni a gwarcheidwaid, gan sicrhau eu bod yn cael eu trafod yn gyfrinachol cyn gynted â phosibl ac am amser rhesymol
- sicrhau bod yr asesiadau a gyflawnir wedi eu seilio ar wybodaeth gadarn a chynhwysfawr am y plentyn a'u bod yn cael eu cofnodi'n ofalus
- hysbysu rhieni a gwarcheidwaid am benderfyniadau a wneir ynghylch anawsterau eu plentyn
- gofyn am eu caniatâd i roi'r plentyn ar y Gofrestr AAA/ADY
- dangos parch i gefnogaeth rhieni a gwarcheidwaid lle bo hynny'n briodol
- sicrhau bod y polisi hwn ar gael i rieni ei ystyried, pan wneir cais am hynny
- rhannu gwybodaeth am ffynonellau o gymorth perthnasol e.e. Cyrff Cydgysylltwyr ADY lleol a chenedlaethol, SNAP Cymru, yn ogystal a'r Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni a'r Gwasanaeth Datrys Anghydfod a ddarperir gan yr ALI
- sicrhau bod y Llawlyfr Ysgol yn cynnwys gwybodaeth berthnasol, gyfoes am ddarpariaeth ALI o fewn yr ysgol
- gwahodd rhieni a gwarcheidwaid i holl gyfarfodydd yr Arolwg Blynyddol.

Pennaeth: N. Davies

Llywodraethwr: G. Evans

*NR Davies*

*G. Evans*

Cydgysylltydd AAA/ADY: N. Davies

Dyddiad: 01|04|2024

*NR Davies*

## Meini prawf ar gyfer Llwyddiant :

Rheolaeth o ddydd i ddydd :

- mae gan yr ysgol bolisi AAA/ADY i gyfateb i'r Cod Ymarfer
- penodwyd cydgysylltydd AAA/ADY
- mae'r cydgysylltydd yn cael cyfleoedd i gyfarfod â'r Pennaeth a staff eraill
- mae cyswllt yn bodoli rhwng y Cydgysylltydd AAA/ADY a'r llywodraethwr dynodedig
- rhoddir amser di-gyswllt i roi cyfle i'r Cydgysylltydd AAA/ADY drafod anghenion a gweithredu'r polisi.